



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council



CEFNOGI POBL CWM TAF

GWEITHGAREDDAU A GANIATEIR

Mehefin 2016

Cyflwyniad

Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Cymru (Mehefin 2013)

Dylai'r Gweithgareddau a Ganiateir a fanylir yn y ddogfen hon gael eu darllen oddi fewn i gyd-destun Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Cymru (Mehefin 2013.) Mae'r canllaw'n nodi fod Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai (CGTh) yn cael ei ddarparu i bobl sy'n agored i niwed er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu a chynnal y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosib. Dylai tai a rhwystro digartrefedd / pobl yn byw mewn lleoliadau sefydliadol anaddas fod wrth wraidd gwasanaethau'r CGTh.

Mae pennod 3 o'r canllawiau (Cymhwysedd) hefyd yn cynnwys y canlynol:

- Gall CGTh gael ei gynnig i unrhyw berson cymwys, beth bynnag yw ei ddeiliadaeth.
- Egwyddorion CGTh yw:
- Cefnogi defnyddiwr y gwasanaeth i gael mynediad, cynnal a rheoli llety drwy ei gynorthwyo i ddatblygu neu gynnal y sgiliau angenrheidiol a'r hyder i fyw mor annibynnol â phosib;
- Rhwystro'r angen i symud i fath mwy dibynnol o lety;
- Rhwystro digartrefedd;
- Darparu cefnogaeth i bobl sydd ar hyn o bryd neu sydd â hanes o fyw bywydau ansefydlog a allai fod wedi cyfrannu at batrymau ymddygiad caotig.
- Rhwystro'r angen ar gyfer ymyrraeth argyfwng yn y dyfodol.
- Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gymwys ar gyfer CGTh fod dros 16 mlwydd oed.
- Bydd darpariaeth gwasanaethau CGTh yn cael ei seilio ar **anghenion dynodedig neu asesiad**. Mae'n rhaid i'r asesiad hwn fod yn hyblyg a chanolbwyntio ar yr unigolyn sydd o dan sylw.
- Dylai CGTh alluogi a datblygu annibyniaeth yr unigolyn h.y **'gwneud gyda'** yn hytrach na **'gwneud ar ran.'** Dylai canolbwynt y gwasanaeth annog a chefnogi defnyddiwr y gwasanaeth i ymarfer dewis personol a phenderfynoldeb.
- Dylai gwasanaethau fod yn rhan o becyn cefnogaeth sy'n seiliedig ar **gynllun cefnogaeth** ysgrifenedig a gytunwyd arno gan ddefnyddiwr y gwasanaeth a chynnwys mesurau **asesiad risg a rheolaeth risg**.
- Dylai gwasanaethau ganolbwyntio ar ddeilliannau a dylai cynlluniau cefnogi ganolbwyntio ar ba ddeilliannau y gellir eu cyflawni gan yr unigolion sy'n derbyn y gefnogaeth. Dylai gwasanaethau gydymffurfio â'r egwyddorion craidd sy'n cael eu cynnwys oddi fewn i **Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl**.

Pam fod rhaid i ni ddiffinio Gweithgareddau a Ganiateir ar gyfer Cefnogaeth sy'n Gysylltiedig â Thai?

Er nad yw'r canllawiau uchod yn cynnwys rhestr o weithgareddau a ganiateir, mae'r ddogfen wedi cael ei datblygu (a'i diweddarau) er mwyn hybu dyfeisgarwch a chynorthwyo asiantaethau ac unigolion i reoli disgwyliadau a deall bwriad, cwrmpas a ffiniau'r CGTh.

Mae rhestr, yn ôl trefn yr wyddor o'r **gweithgareddau a ganiateir** gan CGTh yn dilyn ar y dudalen nesaf.

Gellir dod o hyd i restr o **weithgareddau a eithrir** gan CGTh ar ddiwedd y ddogfen.

Mae hyblygrwydd oddi fewn i'r canllawiau er mwyn ystyried achosion unigol, yn enwedig ble allai achosi caledu i'r unigolyn os nad yw tasg wedi ei gwblhau nad yw wedi ei gynnwys yn yr hyn a nodir isod. Byddai rhaid i hyn gael ei benderfynu gan y Tîm Cefnogi Pobl, gael ei gyfyngu gan amser a chael ei adlewyrchu yn y cynllun cefnogi a'i gysylltu â chefnogaeth tai perthnasol.

Cysylltwch â'r Tîm Cefnogi Pobl am ragor o wybodaeth.
Nodwch fanylion cyswllt.

Gweithgareddau a Ganiateir

1	LLETY (DOD O HYD I DDEWIS AMGEN. . .)
	Mae hyn yn cynnwys: - Cynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i edrych ar opsiynau ar gyfer tai amgen a chynorthwyo i reoli disgwyliadau parthed yr opsiynau sydd ar gael, yn enwedig pan fydd o dan 35 mlwydd oed ac yn destun cyfradd ystafell sengl. - Cynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i edrych am lety preifat / llety a rennir sy'n addas - Cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i wneud cais am dai cymdeithasol a'u cynorthwyo i ddarparu unrhyw wybodaeth gefnogol i landlordiaid cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys dangos iddynt sut i ddod o hyd i wybodaeth ar dai sydd ar osod a sut mae gwneud cynnig. - Cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i gynllunio ar gyfer cydlynu â'r landlord h.y llunio rhestr o gwestiynau posib - Gellir llenwi ffurflenni ar y cyd gyda defnyddiwr y gwasanaeth ond ni ddylid gwneud hyn hebddynt Nid yw hyn yn cynnwys: - Darparu trafndiaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth i fynd i ymweld ag eiddo, lle mai'r unig fwriad yw darparu gwasanaeth trafndiaeth - Mynd â dodrefn oddi yno - Addurno, glanhau neu wasanaethau cynnal a chadw cyffredinol
2	LLETY (DECHRAU'N DEG. . .)
	Mae hyn yn cynnwys: - Gall y gweithiwr cymorth fynd trwy'r cytundeb tenantiaeth gyda defnyddiwr y gwasanaeth gan esbonio a diffinio ei ddarpariaethau, cynllunio gyda defnyddiwr y gwasanaeth sut y byddant yn mynd ati i gysylltu â chwmnïau cyfleustodau a gwneud taliadau (cydlynu ar ran defnyddwyr y gwasanaeth lle bydd anabledd corfforol, problemau dysgu neu faterion emosiynol yn rhwystro defnyddiwr y gwasanaeth rhag gwneud hynny'n annibynnol) - Edrych ar opsiynau ar gyfer dulliau talu - (dylai defnyddwyr y gwasanaeth gael eu hannog i ystyried yr opsiynau hyn drostynt hwy eu hunain lle bydd hynny'n bosibl) - Cynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i lunio rhestr o gwestiynau i ofyn i gwmnïau cyfleustodau neu gynllun gweithredu tasgau i'w cyflawni, rhestr o rifau ffôn defnyddiol, arddangos a modelu sgysiau ffôn gydag asiantaethau a chwmnïau - Cynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i lunio rhestr o eitemau sydd eu hangen ar gyfer y cartref e.e llestri, cyllyll a ffyrc, oergell, eitemau addurno ac ati. - Mynd gyda defnyddwyr y gwasanaeth i'w cynghori a'u cynorthwyo i brynu eitemau angenrheidiol ar gyfer yr eiddo e.e o siopau DIY, offer trydanol - Cynorthwyo i drefnu symud a chyfleustodau - Cynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i gyfathrebu â'r landlord er mwyn sicrhau bod unrhyw anghenion cyfathrebu neu synhwyraidd yn cael eu hamlygu ar ddechrau'r denantiaeth. Nid yw hyn yn cynnwys: - Symud defnyddiwr gwasanaeth i mewn i'r eiddo h.y symud dodrefn, addurno, gwaith trin a thrwsio, gosod peiriannau golchi, poptai yn eu lle ac ati. - Prynu eitemau ar ran defnyddwyr y gwasanaeth
3	LLETY (CYNNAL.....)
	Mae hyn yn cynnwys: - Gweithio â defnyddiwr y gwasanaeth er mwyn nodi problemau a materion allai beryglu tenantiaeth defnyddiwr y gwasanaeth e.e strategaethau i leihau llygredd sŵn - Cydlynu â landlord / asiantaethau er mwyn gwneud y cartref yn fwy effeithlon o ran ynni a sicrhau bod y cartref yn cael ei gadw mewn cyflwr da

	- Gweithio â defnyddiwr y gwasanaeth i'w gynorthwyo i ddeall amodau ei gytundeb meddiannaeth - Gall y gweithiwr cymorth gynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael iddo er mwyn gwneud gwaith trwsio a chynnal a chadw - Cynorthwyo â threfniadau credydau uniongyrchol neu drefniadau i sicrhau taliad uniongyrchol rhent neu daliadau gwasanaeth. (Rhaid bod wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol). Nid yw hyn yn cynnwys: - Gweithredu ar ran y landlord er mwyn cyflwyno Hysbysiadau Torri Amodau Tenantiaeth neu Hysbysiad yn Hawlio Meddiannaeth - Gwneud gwelliannau, trwsio, cynnal a chadw
4	ADDASIADAU ER MWYN GWELLA HYGRYCHEDD YN Y CARTREF
	Mae hyn yn cynnwys: - Cynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i ddod o hyd i grantiau a gwybodaeth neu gyfieirio ei hunain at asiantaethau priodol all gynorthwyo i addasu neu wella'r eiddo Nid yw hyn yn cynnwys: - Y gweithiwr cefnogaeth yn gwneud addasiadau uniongyrchol i'r eiddo
5	PLANT
	Mae hyn yn cynnwys: - Cynnig gwybodaeth, cefnogaeth a dangos y ffordd parthed materion sy'n ymwneud â lle plentyn tebyg i sgiliau rhianta, cyfryngu, cydgysylltu ag ysgolion, gweithwyr ieuchyd ac asiantaethau statudol neu wirfoddol eraill - Cefnogaeth i ddefnyddiwr gwasanaeth i gefnogi person sydd o dan 16 mlwydd oed, lle gall ymddygiad effeithio ar gynaliadwyedd y denantiaeth / cartref Nid yw hyn yn cynnwys: - Darparu gwasanaeth gwarchod baban/plentyn - Therapi ymddygiad ffurfiol i blant - Gwaith Chwarae - Cefnogaeth ar gyfer person sydd o dan 16 mlwydd oed lle nad yw'r rhiant/gofalwr yn ddefnyddiwr y gwasanaeth
6	ADNODDAU CYMUNEDOL
	Mae hyn yn cynnwys: - Darparu gwybodaeth (a gwneud ymholiadau gyda neu ar ran defnyddwyr gwasanaeth) ynghylch argaeledd a threfniant mynediadau ar gyfer cyfleusterau cymunedol. - Gallai adnoddau cymunedol gynnwys - gwasanaethau statudol tebyg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai a'r Gwasanaeth Prawf - addysg, hyfforddiant ac asiantaethau cyflogaeth - grwpiau/gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol lleol - Os oes angen cefnogaeth ar ddefnyddiwr y gwasanaeth i fynychu'r uchod, caniateir i'r gweithiwr cymorth gludo defnyddiwr y gwasanaeth i ymweliadau cychwynnol yn unig (yn destun i bolisiâu a gweithdrefnau darparwyr y gwasanaeth.) - Cynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i ddynodi opsiynau trafndiaeth gan gynnwys dealltwriaeth o amserlen fws er mwyn ei alluogi i fynychu gwasanaethau lleol - Mynediad i raglenni cynhwysiant digidol.
7	GALW I MEWN
	Darparu cyngor a CGTh pan fo'r galw lle nad oes cynllun cefnogaeth yn ei le e.e cefnogi gyda staffio sesiynau galw i mewn sy'n ymwneud â thai
8	CEFNOGAETH EMOSIYNOL
	Mae hyn yn cynnwys:

	- Darparu cefnogaeth i bobl sy'n cael eu cam-drin yn ddomestig, yn enwedig y rheini sydd wedi eu hasesu i fod mewn risg sylfaenol i ganolig nad sydd o reidrwydd yn gefnogaeth benodol sy'n ymwneud â thai. - Darparu rhaglenni lles tebyg i'r Rhaglen Ryddid - Cynorthwyo mynediad at wasanaethau arbenigol gan gynnwys Meddyg Teulu - Mae'n rhaid i'r gefnogaeth emosiynol ymwneud â rheolaeth y denantiaeth / materion sy'n ymwneud â chefnogaeth tai Nid yw hyn yn cynnwys: - Cwnsela arbenigol neu ffurfiol - Gwasanaethau Cyfeillio
9	ARIAN AC INCWM
	Mae hyn yn cynnwys: - Gwneud cyllidebau a threfnu materion ariannol, gan gynnwys ceisiadau ar gyfer budd-daliadau priodol er mwyn sicrhau mwyafrwm incwm (e.e mynediad i Effeithlonrwydd Ynni/ rhaglenni caledu tanwydd tebyg i USwitch, mynediad at Cymorth Dŵr, y Gronfa Gymorth Ddewisol a Thaliadau Tai Dewisol.) (Rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.) - Cynorthwyo gyda strategaethau datblygu er mwyn lleihau unrhyw ddyledion ac ymdrin â materion ariannol (Rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.) - Gall y gweithiwr gofal wneud ymholiadau a chydlynu gydag asiantaethau (gyda neu ar ran defnyddiwr y gwasanaeth) parthed yr uchod - Cynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i ddynodi ffyrdd addas i dalu'r rhent e.e trefnu taliadau debyd uniongyrchol (Rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.) - Llunio cynllun taliadau gyda defnyddiwr y gwasanaeth fel rhan o gefnogaeth ariannol defnyddiwr y gwasanaeth (Rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.) Cydlynu gyda'r landlord ar ran defnyddiwr y gwasanaeth er mwyn trefnu ail-dalu ôl-ddyledion Cefnogi defnyddiwr y gwasanaeth i agor cyfrif banc Nid yw hyn yn cynnwys: - Ymddwyn fel deiliad y gyllideb - Cymryd cyfrifoldeb am unrhyw drafodion ariannol - Gwneud argymhellion neu nodi'r hyn a ffafir yn bersonol i ddarparwyr. - Cludo defnyddwyr y gwasanaeth i'r banc - Bod yn rhan o daliad ar gyfer darpariaeth gwasanaethau gofal - Cymryd cyfrifoldeb tros faterion ariannol defnyddwyr y gwasanaeth lle mae'r defnyddwyr rheini'n analluog i wneud hynny trostynt hwy eu hunain
10	GOFAL IECHYD
	Mae hyn yn cynnwys: - Trefnu mynediad at wasanaethau iechyd brys ar ran defnyddiwr y gwasanaeth e.e apwyntiad deintyddol neu gyda'r Meddyg Teulu - Cyfeirio a chynghori defnyddiwr y gwasanaeth at asiantaethau allai gynorthwyo gyda thriniaeth alcohol a chyffuriau a gorchmynion profi - Cydlynu ag asiantaethau perthnasol - Trefnu gwasanaethau casglu presgripsiynau â'r Fferyllfa sy'n darparu'r feddyginiaeth. - Cyfeirio a chynghori defnyddiwr y gwasanaeth at asiantaethau fedrai gynorthwyo gydag adsefydlu a chwnsela arbenigol - Annog/atgoffa rhywun i gymryd meddyginiaeth fel angen cefnogaeth dros dro e.e yn ystod argyfwng iechyd neu pan fydd rhywun yn symud i brosiect lefel is a bydd angen iddynt ddysgu cwblhau'r dasg yn annibynnol. Nid yw hyn yn cynnwys: - Annog, dal a gweinyddu meddyginiaeth yn yr hirdymor (gweler uchod ar gyfer angen dros dro) - Rhoi/newid gorchudd - Cyngor ar feddyginiaeth

	• Ymyrraeth feddygol uniongyrchol • Llunio cynllun gweithredu â defnyddiwr y gwasanaeth er mwyn cynorthwyo yn dilyn triniaeth gyffuriau ac alcohol a gorchymyn profi • Sicrhau fod defnyddwyr y gwasanaeth yn cydymffurfio â gorchmynion profi
11	SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL
	Mae hyn yn cynnwys: • Gall y gweithiwr gofal gymryd rôl ysgogol y gellir ei efelychu wrth ddysgu sgiliau bywyd. Gall hyn gynnwys arddangos sut i ddefnyddio offer, llunio cynlluniau rheoli'r cartref â defnyddiwr y gwasanaeth (e.e. amserlen o weithgareddau'r cartref y dylid eu gwneud pob wythnos/mis,) archwilio opsiynau gyda defnyddiwr y gwasanaeth a'i annog i gynllunio, paratoi a threfnu ei hun e.e paratoi bwyd, siopa neu goginio. • Dylid cynllunio'r amserlen â'r bwriad fod defnyddiwr y gwasanaeth yn cwblhau'r tasgau mor annibynnol â phosib ac mewn amser. Bydd nifer y sesiynau sydd eu hangen yn ddibynnol ar anghenion unigol defnyddiwr y gwasanaeth • Caniateir i'r gweithiwr cymorth arddangos neu fodelu sut i gloi drysau neu ffenestri yn ddiogel, diffodd offer ac ati a chreu cynllun diogelwch fel y medrant, faes o law, gwblhau'r tasgau hyn yn annibynnol • Cyngor ynghylch rheoli mynediad i'r annedd Nid yw hyn yn cynnwys: • Gofal cartref a phersonol • Gweithwyr gofal sy'n gwneud unrhyw dasgau eu hunain neu oruchwyliaeth barhaol o ddefnyddwyr y gwasanaeth • Darparu trafndiaeth gyson i fynd â defnyddiwr y gwasanaeth i siopa • Siopa ar ran defnyddwyr y gwasanaeth gan gynnwys pan fydd y defnyddiwr yn bresennol ond ddim yn rhan weithredol o'r broses • Ateb y drws ar ran defnyddwyr y gwasanaeth • Gwirio Cardiau Adnabod ar ran defnyddwyr y gwasanaeth • Gofyn i ymwelwyr arwyddo i mewn ac allan • Gofalu am ymwelwyr (e.e gwneud te a choffi ac ati) • Gwirio ymddygiad defnyddiwr y gwasanaeth neu wirio'r adeilad
12	ADSEFYDLU WEDI SALWCH/ANABLEDD A GAFWYD
	Mae hyn yn cynnwys: • Cefnogaeth i wneud cais am offer cymorth addas, addasiadau a grantiau i wella mynediad i eiddo
13	DIOGELU – OEDOLION
	Mae hyn yn cynnwys: • Gall y gweithiwr cymorth gyflwyno gwybodaeth ffeithiol i gynadleddau diogelu (drwy fod yn bresennol neu'n ysgrifenedig) • Gall y gweithiwr cymorth gyfrannu at a gweithredu cynllun gweithredu diogelu Nid yw hyn yn cynnwys: • Eiriolaeth, hebrwng neu gludo defnyddiwr y gwasanaeth
14	DIOGELU – PLANT
	Mae hyn yn cynnwys: • Gall y gweithiwr cymorth gyflwyno gwybodaeth ffeithiol i gynadleddau diogelu (yn dilyn y cyfarfod cychwynnol, dylai'r rheolwr cymorth gytuno ar wahoddiadau i fynychu cyfarfodydd diogelu a dylent fod yn ddibynnol ar achosion unigol a/neu'r agenda.) Nid yw hyn yn cynnwys: • Eiriolaeth, hebrwng neu gludo defnyddiwr y gwasanaeth oni bai ei fod yn gysylltiedig â diogelwch llety defnyddiwr y gwasanaeth

15	CYNNWYS DEFNYDDIWR GWASANAETH
	Mae hyn yn cynnwys: - Gall y gweithiwr gofal gefnogi defnyddiwr y gwasanaeth i gyfranogi mewn gweithgareddau ymgysylltiol sy'n fewnol ac yn allanol i ddarparwr y gwasanaeth Nid yw hyn yn cynnwys: - Y gweithiwr gofal yn ymddwyn fel hwylusydd ar gyfer digwyddiadau neu gyfarfodydd sydd wedi eu trefnu ar gyfer cynnwys y defnyddiwr (oni bai bod hyn wedi ei nodi yn y cytundeb) - Ni all arian Darparwyr y Gwasanaeth gael ei ddefnyddio i dalu am gostau trefniadaeth digwyddiadau a chyfarfodydd tebyg i logi ystafell, lluniaeth, trafnidiaeth a chyfleusterau crèche
16	SGILIAU CYMDEITHASOL
	Mae hyn yn cynnwys: - Gall y gweithiwr gofal drafod rhyngweithio cymdeithasol addas gyda defnyddiwr y gwasanaeth lle gall ei ymddygiad presennol gael effaith niweidiol ar ei denantiaeth neu ar ei allu i gadw ei gartref ei hun/cynnal cyflogaeth - Gall y gweithiwr gofal gynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i gael mynediad i gyrsiau a hyfforddiant - Os oes angen cymorth ar ddefnyddiwr y gwasanaeth i fynychu'r uchod, caniateir i'r gweithiwr gofal gludo defnyddiwr y gwasanaeth i ymweliadau cychwynnol yn unig (yn destun i bolisïau a gweithdrefnau'r darparwyr cymorth)
17	TRAFNIDIAETH / SYMUDEDD
	Mae hyn yn cynnwys: - Hyfforddiant a chyngor ar ddefnydd addas o dtrafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o gynllun cefnogaeth e.e sut i brynu tocynnau trên, dod o hyd i amserlenni ac ati. - Hyfforddiant a chyngor ynghylch derbyn cyfarwyddiadau a thrafnidiaeth i weithgaredd/leoliad newydd - Os oes angen cymorth ar ddefnyddiwr y gwasanaeth i fynychu'r uchod, caniateir i'r gweithiwr gofal gludo defnyddiwr y gwasanaeth i ymweliadau cychwynnol yn unig (yn destun i bolisïau a gweithdrefnau'r darparwyr cymorth) - Pennir achosion eithriadol eraill yn unigol Nid yw hyn yn cynnwys: - Trafnidiaeth a mynd yn gwmni yn yr hirdymor - Darpariaeth gwasanaeth trafnidiaeth sy'n ailadroddus a/neu sy'n annog dibyniaeth - Gweithiwr gofal yn gwrthio cadair olwyn - Cefnogaeth gorfforol i ddefnyddiwr y gwasanaeth i'w alluogi i fynd mewn/allan o gerbydau neu hwyluso defnydd o offer cymorth symudedd - Cymorth hirdymor / parhaol i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle mae'n annhebygol y gall defnyddiwr y gwasanaeth berfformio'r dasg yn annibynnol - Defnydd o gerbyd i symud eiddo
18	GWEITHDAI
	Mae hyn yn cynnwys: Darparu gweithdai sy'n canolbwyntio ar CGTh, sydd wedi eu cyfyngu gan amser ac sydd wedi eu dynodi ar gynllun cefnogi defnyddiwr y gwasanaeth

Gweithgareddau a Eithrir

Mae'r rhain yn cynnwys:

- 1) Cyngor neu eiriolaeth nad yw'n gysylltiedig â thenantiaeth neu gynnal y cartref
- 2) Ymddwyn fel oedolyn priodol
- 3) Gwasanaethau Cyfeillio / cefnogaeth cymheiriaid
- 4) Coginio prydiau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth yn eu cartrefi
- 5) Adnoddau crèche
- 6) Gwasanaethau addurno
- 7) Darparu prydiau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn eu cartrefu eu hunain
- 8) Gwasanaethau gofal a glanhau
- 9) Bwydo, gweini ar ddefnyddwyr y gwasanaeth neu osod/clirio'r bwrdd
- 10) Garddio / gwasanaethau clirio'r ardd
- 11) Tasgau rheoli tai a fyddai fel arfer yn cael eu cyllido gan rent neu daliad gwasanaeth
- 12) Meddyginiaeth, goruchwyllo, annog neu fonitro
- 13) Darpariaeth trafndiaeth sy'n mynd rhagddo
- 14) Gwasanaethau gofal personol
- 15) Cyngor, canllaw neu annog ymolchi, cymryd meddyginiaeth, bwyta, mynd i'r tŷ bach, gwisgo a thasgau personol eraill
- 16) Gweithgareddau a wneir gan fod defnyddiwr y gwasanaeth yn anabl i gwblhau'r dasg eu hunai e.e gwthio cadair olwyn, cario/symud eitemau tŷ, cloi drysau
- 17) Casglu rhent
- 18) Gwasanaethau seibiant
- 19) Gwasanaethau ble y bo'n ofynnol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyllido yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
- 20) Goruchwyllo gorchmynion llys
- 21) Goruchwyllo troseddswyr